



The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

Apeliadau yn ymwneud â Systemau Draenio Cynaliadwy

Ionawr 2019

Beth yw SuDS?

Mae Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS) yn ofyniad gorfodol ar gyfer bron pob datblygiad newydd yng Nghymru. Nod SuDS yw rheoli glawiad mewn ffordd sy'n debyg i brosesau naturiol, gan ddefnyddio'r dirwedd a'r llystyfiant naturiol i reoli'r llif a faint o ddŵr wyneb sydd. Ceir rhagor o wybodaeth am SuDS ar y dudalen berthnasol ar wefan Llywodraeth Cymru:

<https://gweddill.gov.wales/topics/environmentcountryside/epq/flooding/drainage/?skip=1&lang=cy>

Beth yw apêl SuDS?

Os yw'r Corff Cymeradwyo SuDS (SAB) lleol yn gwrthod cais am gymeradwyo SuDS, neu gais am amodau sydd ynghlwm wrth ganiatâd SuDS neu gais i fabwysiadu system draenio (neu yr ystyrir ei fod wedi gwrthod cais o'r fath) gall apêl yn erbyn y penderfyniad hwnnw gael ei gwneud i'r Arolygiaeth Gynllunio. Nid oes ffi ar gyfer gwneud apêl, ond bydd disgwyl i chi dalu eich costau eich hun.

Pwy sy'n gallu apelio?

Dim ond y person a gyflwynodd y cais gwreiddiol sy'n gallu apelio yn erbyn y penderfyniad.

Pryd gellir gwneud apêl?

Rhaid i apelïadau gael eu gwneud **o fewn 6 mis o:**

- Yn achos apelïadau yn erbyn penderfyniadau ar geisiadau am gymeradwyaeth – dyddiad y penderfyniad neu'r gwrthodiad tybiedig;
- Yn achos apelïadau yn erbyn penderfyniadau ar geisiadau i fabwysiadu - dyddiad y penderfyniad neu'r gwrthodiad tybiedig;
- Yn achos apelïadau yn erbyn amod cymeradwyaeth – y dyddiad y rhoddir cymeradwyaeth.

Beth sydd angen i mi ei gyflwyno gyda'm hapêl?

I wneud apêl ddilys, rhaid i chi anfon copi o'r holl ddogfennau a gwybodaeth ganlynol **at yr Arolygiaeth yn ogystal â'r SAB** cyn daw terfyn amser yr apêl i ben:

- Ffurflen apelio SuDS wedi'i llenwi'n llawn.

- Eich seiliau dros apelio a'r ffeithiau rydych yn dibynnu arnynt i'w cefnogi (mae lle i gynnwys y rhain ar y ffurflen apelio).
- Y weithdrefn apelio a ffefrir gennych (mae hyn hefyd ar y ffurflen apelio – gweler isod am wybodaeth ynghylch y dewis o weithdrefn).
- Copi o ba bynnag rai o'r canlynol sy'n berthnasol:
 - Y cais am gymeradwyaeth ac unrhyw gynlluniau neu wybodaeth arall a anfonwyd gyda'r cais.
 - Y cais i fabwysiadu.
 - Yr hysbysiad penderfyniad.
 - Unrhyw dystysgrif a gyhoeddwyd gan y SAB, i'r perwyl bod y SuDS wedi'i adeiladu mewn modd nad yw'n unol â'r cynigion a gymeradwywyd **neu** ei fod yn annhebygol o gael ei gwblhau.
 - Unrhyw ohebiaeth rhwng y datblygwr â'r SAB mewn perthynas â'r cais neu dystysgrif.

Sut gallaf gyflwyno fy apêl?

Gallwch gyflwyno eich apêl drwy e-bost at:

cymru@planninginspectorate.gov.uk

neu drwy'r post at:

Yr Arolygiaeth Gynllunio
Adeilad y Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Pwy fydd yn penderfynu ar fy apêl?

Penderfynir ar apeliadau gan Arolygydd Cynllunio a benodir i weithredu ar ran Gweinidogion Cymru. Bydd yr Arolygydd yn dod i benderfyniad ar sail y dystiolaeth a gyflwynir iddo yn ysgrifenedig, a geir ar lafar mewn unrhyw ddigwyddiad cyhoeddus, ac a geir o'i ymweliad â'r safle.

Beth sy'n digwydd yn ystod y broses apelio?

Bydd hyn yn dibynnu ar y weithdrefn y mae eich apêl yn ei dilyn. Rhaid i chi nodi eich dewis wrth wneud eich apêl, ond gwneir y penderfyniad terfynol gennym ni ynghylch pa un sydd fwyaf priodol a gall hyn olygu cyfuniad o weithdrefnau.

Mae tri math gwahanol o weithdrefn:

Sylwadau Ysgrifenedig – Cyfyngir tystiolaeth i gyflwyniadau ysgrifenedig ac ymweliad yr Arolygydd â'r safle.

Gwrandawriad – Cyflwynir tystiolaeth ysgrifenedig a dilynir hyn gan drafodaeth bord gron anffurfiol rhwng y partïon, dan arweiniad yr Arolygydd ac sy'n agored i aelodau'r cyhoedd ei gwyllo. Defnyddir hyn i gasglu atebion i unrhyw gwestiynau sydd gan yr Arolygydd am y dystiolaeth a gyflwynwyd ac fe'i dilynir gan ymweliad â'r safle.

Ymchwiliad Cyhoeddus – Sef digwyddiad cyhoeddus ffurfiol a all barhau am nifer o ddiwrnodau ac sy'n caniatáu croesholi a thystiolaeth a roddir dan lw. Fel arfer, cedwir ymchwiliad cyhoeddus ar gyfer achosion lle ceir anghydfod technegol neu gyfreithiol manwl rhwng y partïon sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r dystiolaeth gael ei phrofi gan eiriolwyr. Yn agored i aelodau'r cyhoedd ei wyllo ac fe'i dilynir gan ymweliad â'r safle.

Byddwn yn rhoi gwybod i chi ar adeg briodol yn ystod y broses apelio, ac mewn da bryd bob amser, am y dyddiad a'r amser ar gyfer ymweliadau â safleoedd, gwrandawriadau ac ymchwiliadau.

Pwy sy'n gorfod gwneud beth a phryd?

Mae'r tabl canlynol yn dangos yr amserlen ar gyfer pob math o weithdrefn.

Amserlen	Ymgyngoreion	Apelydd	SAB
<p>Apêl wedi'i derbyn</p> <p>Rydym yn pennu'r dyddiad dechrau a'r amserlen</p>		Anfon y ffurflen apelio a'r holl ddogfennau ategol atom ni a'r SAB. Dylai sylwadau'r apêl ffurfio ei achos llawn.	Derbyn dogfennau'r apêl.
<p>O fewn 5 diwrnod gwaith o'r dyddiad dechrau</p>	Derbyn llythyr y SAB am yr apêl, yn dweud wrthynt fod yn rhaid iddynt anfon unrhyw sylwadau atom o fewn 4 wythnos o'r dyddiad dechrau.	Derbyn holiadur wedi'i lenwi ac unrhyw ddogfennau ategol oddi wrth y SAB.	Anfon holiadur wedi'i lenwi a dogfennau ategol at yr apelydd ac atom ni. Gall yr holiadur gynnwys sylwadau'r SAB ar yr apêl hefyd. Yn ogystal, mae'r SAB yn ysgrifennu at ymgyngoreion am yr apêl.
<p>O fewn 4 wythnos o'r dyddiad dechrau</p>	Anfon eu sylwadau atom.		Os bydd y SAB yn penderfynu peidio â thrin yr holiadur a'r dogfennau

(Mewn amgylchiadau eithriadol yn unig y byddwn yn derbyn sylwadau hwyr)			ategol fel ei sylwadau, bydd yn anfon ei sylwadau pellach atom.
O fewn 6 wythnos o'r dyddiad dechrau	Anfon eu sylwadau terfynol atom ar sylwadau'r SAB a/neu sylwadau unrhyw ymgynghorai arall. Ni chaniateir unrhyw dystiolaeth newydd.	Anfon ei sylwadau terfynol atom ar sylwadau'r SAB ac ar unrhyw sylwadau gan ymgynghoreion. Ni chaniateir unrhyw dystiolaeth newydd.	Anfon ei sylwadau terfynol atom ar sylwadau'r apelydd ac ar unrhyw sylwadau gan ymgynghoreion. Ni chaniateir unrhyw dystiolaeth newydd.
Ar gyfer achosion ymchwiliad yn unig – heb fod yn hwyrach na 4 wythnos cyn yr ymchwiliad	Gall unrhyw ymgynghoreion a wahoddir i gymryd rhan yn yr ymchwiliad gyflwyno datganiad ysgrifenedig o dystiolaeth a chrynodeb.	Rhaid i'r apelydd gyflwyno datganiad ysgrifenedig o dystiolaeth a chrynodeb.	Rhaid i'r SAB gyflwyno datganiad ysgrifenedig o dystiolaeth a chrynodeb.

Pryd fyddaf i'n cael penderfyniad?

Mae amgylchiadau pob apêl yn wahanol a gall ein llwyth gwaith amrywio ar wahanol adegau. Am y rhesymau hyn, ni allwn roi dyddiad pendant ar gyfer penderfyniad. Fodd bynnag, gosodir targedau ar ein cyfer gan y Gweinidog ar gyfer pob math o apêl, ac ymdrechwn i'w bodloni ym mhob achos:

Sylwadau Ysgrifenedig – 14 wythnos o'r dyddiad dechrau.

Gwrandawiadau – 21 wythnos o'r dyddiad dechrau.

Ymchwiliadau – 29 wythnos o'r dyddiad dechrau.

Pan gaiff y penderfyniad ei wneud, fe'i hanfonir drwy e-bost neu drwy'r post at yr apelydd, y SAB a'r holl bartïon eraill sydd wedi gofyn am gopi.

Gellir ei gyhoeddi ar-lein hefyd.

A gaf i wneud cais am gostau?

Cewch. Fodd bynnag, disgwylir i bartïon dalu eu costau eu hunain mewn apeliadau. Ni ddyfernir costau i apelydd dim ond oherwydd bod ei apêl yn llwyddiannus, ac yn yr un modd, ni ddyfernir costau i'r SAB oherwydd bod ei safbwynt neu ei benderfyniad wedi'i gymeradwyo. Ceir dyfarnu costau dim ond lle mae un o'r partïon wedi ymddwyn yn afresymol a bod hynny wedi arwain at 'dreuliau diangen neu wastraffus' i barti arall.

Os ydych chi'n bwriadu gwneud cais am gostau, dylech wneud hynny cyn gynted ag y bo modd. Nodir canllawiau pellach ar ddyfarnu costau yn [Atodiad 12 y Llawlyfr Rheoli Datblygu](#).

Beth sy'n digwydd ar ôl i'r penderfyniad gael ei wneud?

Bydd penderfyniad yr Arolygydd yn sefyll oni bai ei fod yn destun Adolygiad Barnwrol. Mae gwybodaeth am y broses Adolygiad Barnwrol ar gael gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM:

<https://www.gov.uk/government/publications/administrative-court-judicial-review-guide>.

A gaf i dynnu fy apêl yn ôl?

Gallwch dynnu eich apêl yn ôl ar unrhyw adeg cyn cyhoeddi'r penderfyniad drwy roi gwybod i ni yn ysgrifenedig drwy e-bost neu drwy'r post ac anfon copi at y SAB.

Sut gallaf gysylltu â'r Arolygiaeth Gynllunio?

Os oes gennych gwestiynau pellach neu os ydych angen rhagor o wybodaeth am apeliadau SuDS, gallwch gysylltu â ni:

E-bost: cymru@planninginspectorate.gov.uk

Ffôn: 0303 444 5940

Y post:

Yr Arolygiaeth Gynllunio
Adeilad y Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ